OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2828 (Cy.250)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyflenwi Gwybodaeth Ar Gyfer Cymorth I Fyfyrwyr I Gyrff Llywodraethu (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*24 Hydref 2006*
Yn dod i rym - -	*27 Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 45 a 47(5) o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyflenwi Gwybodaeth ar Gyfer Cymorth i Fyfyrwyr i Gyrff Llywodraethu (Cymru) 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 27 Hydref 2006 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongliad

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod cymorth i fyfyrwyr" ("*student support authority*") yw—

(a) Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(b) unrhyw awdurdod sy'n cwympo o fewn adran 45(7)(e) o Ddeddf 2004; ac

(c) unrhyw berson sy'n cwympo o fewn adran 45(7)(f) o Ddeddf 2004;

ystyr "cais am gymorth i fyfyrwyr" ("*student support application*") yw cais am gymorth sy'n daladwy o dan y cynllun cymorth i fyfyrwyr am flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2007;

ystyr "corff llywodraethu" ("*governing body*") yw person sy'n cwympo o fewn adran 45(2)(a) o Ddeddf 2004;

ystyr "cynllun cymorth i fyfyrwyr" ("*student support scheme*") yw darpariaethau'r rheoliadau o dan adran 22 o Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**);

(**1**) 2004 p. 8.

(**2**) 1998 p.30; diwygiwyd adran 22 gan adran 146 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21) ac Atodlen 11 iddi, Atodlen 6 i Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p.1), adran 147 o Ddeddf Cyllid 2003 (p.14), ac adran 42. Diwygiwyd adran 42 ac adran 43 gan Ddeddf Addysg 2002 (p.32), Atodlen 12. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad

ystyr "Deddf 2004" ("*2004 Act*") yw Deddf Addysg Uwch 2004;

ystyr "gwybodaeth ar gyfer cymorth i fyfyrwyr" ("*student support information*"), mewn perthynas ag awdurdod cymorth i fyfyrwyr, yw unrhyw wybodaeth y mae'r awdurdod cymorth i fyfyrwyr yn ei dal mewn cysylltiad â, neu o ganlyniad i, arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â gweithredu'r cynllun cymorth i fyfyrwyr;

ystyr "noddwr yr ymgeisydd" ("*applicant's sponsor*") yw rhiant ymgeisydd, partner ymgeisydd neu bartner rhiant ymgeisydd y mae'n ofynnol iddo o dan y cynllun cymorth i fyfyrwyr(**3**) ddarparu gwybodaeth mewn cysylltiad â chais yr ymgeisydd am gymorth i fyfyrwyr; ac

ystyr "ymgeisydd" ("*applicant*") yw person sy'n gwneud cais am gymorth i fyfyrwyr.

Cyflenwi gwybodaeth ar gyfer cymorth i fyfyrwyr

3.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 4, caiff awdurdod cymorth i fyfyrwyr gyflenwi gwybodaeth ar gyfer cymorth i fyfyrwyr o ddisgrifiad a ragnodir yn rheoliad 5 i gorff llywodraethu at y dibenion a ragnodir ym mharagraff (2).

(2) Y dibenion a ragnodir yw'r dibenion o gynorthwyo'r corff llywodraethu—

(a) i benderfynu a yw'r ymgeisydd yn gymwys ar gyfer bwrsari (neu gymorth ariannol arall) sy'n cael ei gynnig gan y corff hwnnw ac os yw, swm y bwrsari (neu'r cymorth ariannol arall) sy'n daladwy i'r ymgeisydd; a

(b) i dalu i'r ymgeisydd swm y bwrsari (neu'r cymorth ariannol arall) y mae'r corff llywodraethu wedi penderfynu sy'n daladwy iddo.

Gwybodaeth ragnodedig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr i'w chyflenwi gyda chydsyniad yn unig

4.—(1) Ni chaiff awdurdod cymorth i fyfyrwyr gyflenwi gwybodaeth ar gyfer cymorth i fyfyrwyr o ddisgrifiad a ragnodir yn rheoliad 5(a) neu (c) heb gydsyniad yr ymgeisydd.

(2) Ni chaiff awdurdod cymorth i fyfyrwyr gyflenwi gwybodaeth ar gyfer cymorth i fyfyrwyr o ddisgrifiad a ragnodir yn rheoliad 5(b) heb gydsyniad noddwr yr ymgeisydd.

Gwybodaeth ragnodedig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr

5. Mae gwybodaeth ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn wybodaeth o'r disgrifiad a ragnodir os—

(a) yw'n wybodaeth a gyflenwyd i awdurdod cymorth i fyfyrwyr gan yr ymgeisydd mewn cysylltiad â'i gais am gymorth i fyfyrwyr;

(b) yw'n wybodaeth a gyflenwir i awdurdod cymorth i fyfyrwyr gan noddwr yr ymgeisydd mewn cysylltiad â chais yr ymgeisydd am gymorth i fyfyrwyr;

(c) yw'n wybodaeth sy'n ymwneud â—

(i) statws yr ymgeisydd fel myfyriwr cymwys, fel myfyriwr cymwys rhan-amser neu fel myfyriwr cymwys ôl-raddedig at ddibenion y cynllun cymorth i fyfyrwyr;

(ii) cymhwyster yr ymgeisydd ar gyfer cymorth ariannol sy'n daladwy o dan y cynllun cymorth i fyfyrwyr;

(iii) cyfrifo swm y cymorth ariannol sy'n daladwy i'r ymgeisydd o dan y cynllun cymorth i fyfyrwyr; neu

Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149) (p.79)).

(**3**) Diffinnir "Student support scheme" yn adran 45(8) o Ddeddf Addysg Uwch 2004.